



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

DEDDF ADEILADU 1984

RHEOLIADAU ADEILADU (AROLYGWYR CYMERADWY ETC) 2010

CYFLWYNIAD

1. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo "CICAIR Limited" fel y corff dynodedig i ymgymryd â swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymeradwyo Arolygwyr Cymeradwy. Mae'r gymeradwyaeth yn dod i rym ar 31 Mawrth 2014.

HYSBYSIAD DYNODI NEWYDD

2. Cynhaliwyd adolygiad o Gofrestr Arolygwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu (CICAIR) yn 2012, ac argymhellwyd y dylid sefydlu is-gwmni ar wahân i ymgymryd â swyddogaethau fel y corff arolygwyr cymeradwy dynodedig. Roedd y newid endid cyfreithiol yn golygu bod angen hysbysiad dynodi newydd. Mae'r "Hysbysiad Dynodi" newydd yn gosod swyddogaethau a chyfrifoldebau ffurfiol y corff dynodedig. Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar weithrediad parhaol y cofrestr arolygwyr cymeradwy ac mae pob gweithred a wnaed gan Gyngor y Diwydiant Adeiladu fel y corff dynodedig blaenorol yn parhau i fod yn ddilys.
3. Gwneir y dynodiad o dan adran 49 Deddf Adeiladu 1984 a rheoliadau 3 a 5 Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010. Mae'r pwerau yma yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009.

4. Manylion cyswllt CICAIR Limited:

CICAIR Ltd (rhif cwmni 8881582)
d/o The Construction Industry Council (CIC)
The Building Centre
26 Store Street
Llundain
WC1E 7BT
Ffôn: 020 7399 7400
Ffacs: 020 7399 7425
E-bost: enquiries@cic.org.uk

4. Ceir copi o'r "Hysbysiad Dynodi" ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://wales.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy>

YMHOLIADAU

5. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhydycar, Merthyr Tudful,
CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628144.

E-bost: Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Francois Samuel'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'F' and 'S'.

Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu